**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 O DDEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

## CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR GLADSTONE WAY, PENARLÂG

Rhoddir **RHYBUDD** drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 23 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

a) Gosod Croesfan Pâl i Gerddwyr yn y lleoliad a ddisgrifir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Gladstone Way, Penarlâg fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan pâl. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan barhaol yn y lleoliad y mae Hebryngwr Croesfannau Ysgol yn weithredol ar hyn o bryd, a fydd yn helpu siwrneiau cynaliadwy i'r ysgol. Bydd y cyfleuster o fudd nid yn unig i blant sy'n teithio'n ôl ac ymlaen i'r ysgol ar amseroedd dechrau a gorffen arferol yr ysgol, ond hefyd y rhai sy'n mynychu clybiau bore neu ar ôl ysgol pan nad oes hebryngwr ar ddyletswydd neu yn ystod absenoldebau. Bydd hefyd yn gwasanaethu'r gymuned ehangach trwy ddarparu man croesi diogel y tu allan i oriau ysgol.

Bydd y gwaharddiad arferol ar gerbydau yn parcio, aros, llwytho a dadlwytho ar y briffordd, o fewn yr ardaloedd sydd wedi eu marcio â llinellau igam-ogam ar ddwy ochr y groesfan, yn weithredol.

Gellir archwilio copi o'r Rhybudd hwn a chynlluniau sy'n dangos y ffordd y mae'r cynnig yn effeithio arni, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Gysylltu Bwcle, Llyfrgell Bwcle, The Precinct, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF.Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener, 1 Tachwedd 2024 neu drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/JB/GWH/Puffin.


### ATODLEN

### Gosod Croesfan Pâl Newydd i Gerddwyr

**Gladstone Way, Penarlâg** – gerllaw cyffordd Crosstree Lane.

Dyddiedig 11 Hydref 2024

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR


VE WAY
25
4
CROSSTREE LANE